## BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

20 Ionawr 2022, 1.00PM

### Drwy Teams

# Cofnodion

**Yn bresennol:**

Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Cadeirydd)
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Y Cynghorydd Jane Tremlett (CyngJT), Cyngor Sir Caerfyrddin
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Tessa Hodgson (CyngTH), Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd Gareth John (CyngGJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Y Cynghorydd Alun Williams (CyngAW), Cyngor Sir Ceredigion
Gareth Morgan (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin

Hefyd yn bresennol:

Darren Mutter (DM), Cyngor Sir Penfro (Rhan)
Sarah J Bolton (SB), Cyngor Sir Caerfyrddin
Kelvin Barlow (KB), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Jessica Rees (JR), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Kevin Pett (KP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Rebecca A Jones (RJ), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

**Ymddiheuriadau**

Karen Chandler (KC), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
James Tyler (JT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Sian Howys (SiH), Cyngor Sir Ceredigion
Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro

### 1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd Judith Hardisty bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

## 2. Ymddiheuriadau

Nodwyd y rhain.

## 3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2021 a chamau gweithredu

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Rhoddodd y cadeirydd ddiweddariad ar gynnydd y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn y tabl gweithredu a atodir isod.

## 4. Bwrdd Plant

Cyflwynodd y cadeirydd SB a roddodd grynodeb o'r adroddiad a ddosbarthwyd fel rhan o fwndel yr agenda ynghylch y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc Rhanbarthol. Yna cyflwynwyd DM i roi diweddariad ar y prosiect Llety Diogel.

Dywedodd JM fod y system gyfan wedi methu â rheoli plant ac mai ni yw'r unig ranbarth yng Nghymru sy'n ceisio dod â newid o fewn y system. Mynegodd JM fod y prosiect yn ddatblygiad cyffrous i'r rhanbarth a'i fod yn adnodd sydd ei angen.

Ailadroddodd y CyngJT fod hyn yn bwysig iawn i'r rhanbarth; fodd bynnag, a fydd gennym ddigon o gapasiti i wneud hyn? - rhaid i ni edrych hefyd ar pam y gwnaethom gau cartrefi plant yn y lle cyntaf. Ymatebodd DM trwy ddweud bod yn rhaid i ni ddechrau yn rhywle, ac nid dyma'r unig uned breswyl y mae Sir Benfro yn bwriadu ei datblygu ar hyn o bryd a bydd y capasiti'n dod yn sgil datblygu'r unedau.

Holodd y CyngGJ beth yw'r meddylfryd y tu ôl i'r prosiect a beth yw'r niferoedd dan sylw ond dywedodd y byddai'n fuddiol cael canolfan ranbarthol arbenigol. Ymatebodd JM ein bod, o safbwynt Sir Gaerfyrddin, yn edrych ar 3-4 o blant ar unrhyw un adeg. Nod y ddarpariaeth yw camu plant yn ôl i lawr i leoliad teuluol.

Diolchodd y cadeirydd i SB a DM am gyflwyno'r eitem heddiw.

## 5. Gofalwyr: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cyflwynodd y cadeirydd AB a ddywedodd fod yr aelodau wedi derbyn copi o'r adroddiad chwemisol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch gofalwyr di-dâl. Yna tynnodd AB sylw at bwyntiau allweddol yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau y cytunir ar gynlluniau gwariant drwy grŵp datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Mae'r adroddiad yn dangos bod 1,575 o ofalwyr wedi cael eu cefnogi'n weithredol yn ystod y 6 mis cyntaf ac mae'r pandemig wedi dangos cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr sy'n dod ymlaen ac yn nodi eu hunain fel gofalwyr. Dywedodd AB fod Llywodraeth Cymru wedi cyfathrebu ynghylch dyfodol y £1 miliwn o gyllid i ofalwyr ac y bydd yr arian yn dod i mewn i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol fel rhan o gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF). Sicrhawyd yr Aelodau y bydd hon yn gronfa ar wahân a'r bwriad yw cael un ffocws ar gyfer defnyddio'r cyllid a fydd yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

Holodd HLL a oedd hyn yn adlewyrchu beth y mae gofalwyr eisiau ac angen ei gael o'r cyllid gan fod hyn yn groes i gyd-gynhyrchu, gan fod hyn yn penderfynu ble mae'r cyllid yn mynd. Dylai hon fod yn ffrwd ariannu sy'n cefnogi'r holl flaenoriaethau yn y strategaeth gofalwyr genedlaethol a rhanbarthol.

Gofynnir i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol nodi'r adroddiad a'r gwasanaethau a gomisiynwyd.

## 6. Y Gweithlu: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Cyflwynodd y cadeirydd RJ i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithlu gofal cartref i oedolion yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Hydref a'r Bwrdd Rhaglen Gweithlu Rhanbarthol.

Gofynnodd AW am ragor o wybodaeth am recriwtio rhyngwladol. Ymatebodd RJ. Y broblem sydd gennym mewn gofal cartref yw'r cynnydd enfawr mewn angen felly byddai'n ddefnyddiol gweld yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn. Mae galw am ddod i mewn i'r gwasanaeth trwy gynlluniau prentisiaethau yn ardal Hywel Dda felly byddai'n fuddiol edrych ar ddyblygu hyn ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd EH yn meddwl tybed a oes angen i ni ailystyried sut yr ydym yn gweithio gyda phobl ifanc ac, yn hollbwysig, eu rhieni, i gyflwyno gyrfaoedd a chyflogaeth ym maes gofal cymdeithasol mewn ffordd gadarnhaol. I rai gall gwneud hyn yn ddeniadol fod yn heriol iawn, ond gall mynediad at lwybrau gyrfa a hyfforddiant a hyrwyddo hyn fod yn bethau a fydd yn cael dylanwad cadarnhaol.

Dywedodd KN fod hyn yn rhywbeth sydd wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn y Bartneriaeth Ranbarthol a Sgiliau ar gyfer y Strategaeth Dysgu a Sgiliau, felly roedd yn dda clywed RJ yn cyfeirio at y ffaith eu bod yn eistedd ar y Grŵp Gweithlu, gan eu bod yn gweithio'n eithaf agos gyda darparwyr addysg a dysgwyr i gyfeirio sgiliau a datblygiad tuag at anghenion rhanbarthol a bylchau yn y ddarpariaeth.

Holodd y CyngGJ am aelodaeth y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol a hefyd beth sy'n cael ei gynnig nesaf ar gyfer cyflog a gwobrwyo? Ymatebodd RJ trwy ddweud bod y Grŵp Gweithredol Integredig (IEG) wedi gofyn i bob cyfarwyddwr Awdurdod Lleol edrych ar eu cynlluniau cyflog a gwobrwyo unigol. Mae cyflog byw yn effeithio ar 30/40% o weithwyr cartrefi gofal ac maent yn derbyn 30c yr awr yn ychwanegol, nad ydyw'n godiad sylweddol. Mae contractau'n cynnig o leiaf 12 awr yr wythnos ac yn talu llawer mwy na'r cyflog byw cenedlaethol. Nid oes fawr ddim gwahaniaeth ychwaith rhwng cyflogau'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd.

Roedd AS yn cytuno bod y telerau'n bwysig ond yr amodau sy'n atal pobl rhag ymuno â'r sectorau.

Gofynnodd y CyngGJ a fydd y bwrdd gweithlu rhanbarthol yn bwydo i mewn i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gan fod angen i ni godi proffil y gwaith hwn ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dywedodd RJ y bydd hi'n adrodd yn ôl bod y rhanbarth am yrru'r gwaith hwn. Mae angen i ni gael hyn yn iawn ar draws y rhanbarth.

## 7. Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) a Llywodraethu: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Rhoddodd KB gyflwyniad byr i'r aelodau ar elfennau allweddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Ceir cyfanswm dyraniad o £18.5 miliwn sydd yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol ond mae Llywodraeth Cymru yn dal i benderfynu pa gyllid sy'n dod drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Byddai'n rhaid i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gyfrannu at 6 maes/model gofal. Dywedodd KB y bydd yn dod â'r wybodaeth ddiweddaraf i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r diweddariadau.

## 8. Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a'r Asesiad Poblogaeth: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Dywedodd KP mai'r bwriad gwreiddiol oedd dod â'r Adroddiad terfynol ar Sefydlogrwydd y Farchnad i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol heddiw ond y bu ychydig o oedi. Bydd y papur yn cael ei ddwyn gerbron cyfarfod eithriadol y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol cyn hir.

Dywedodd KN fod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth mewn sefyllfa debyg i'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad. Nodwyd bod angen symleiddio'r ddogfen bresennol sydd yn 155 tudalen o hyd. Dywedodd KN ei bod hi'n ymgysylltu â phartneriaid ar hyn o bryd ar sut y gellir golygu hyn. Y dasg allweddol nesaf fydd edrych ar y themâu trawsbynciol. Mae'r amserlen ar gyfer yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad wedi'i gosod mewn deddfwriaeth felly nid oes llawer o hyblygrwydd ynghylch hyn, tra bod angen adnewyddu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ym mhob cylch.

Dywedodd HLL ein bod wedyn yn trosi rhywfaint o'r wybodaeth yn rhaglen waith ar gyfer y bartneriaeth ac mae angen edrych arni ar gyfer agenda'r dyfodol.

## 9. Y Gronfa Gofal Integredig: Y Wybodaeth Ddiweddaraf

Rhoddodd KN ddiweddariad byr ar y Gronfa Gofal Integredig. Ceir tystiolaeth o wariant sy'n is na'r hyn y byddem fel arfer yn ei ddisgwyl yr adeg hon o'r flwyddyn, ond oedi mewn anfonebu sy'n gyfrifol am hyn. Bydd diweddariad pellach yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

## 10. Dyddiad y cyfarfod nesaf **23 Mawrth 2022 1pm**

Dywedodd yr Aelodau y gallai'r dyddiad hwn fod yn broblem oherwydd y byddai'n gyfnod cyn yr etholiadau felly bydd angen i ni edrych ar newid y dyddiad.

## 11. Unrhyw Fater Arall (Cytunwyd ymlaen llaw)

Dywedodd KB fod yna ychydig o fylchau yn aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y mae angen mynd i'r afael â hwy dros y misoedd nesaf ac y bydd y broses hon yn dechrau cyn hir.

**BWRDD PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU: CAMAU GWEITHREDU Ionawr 2021**

| ID | Gweithred | Arweinydd | Amserlen | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| 03/21/3 | Cyflwyno maniffesto wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i'w gymeradwyo | KB | Gorffennaf 2021 | Mawrth 2022 | |
| 07/21/1 | Datblygu trafodaethau gyda Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn ynghylch bod yn bresennol yng nghyfarfod mis Hydref | KB | Medi 2021 | Gohiriwyd tan gyfarfod Ionawr 2022 | |
| 07/21/2 | Dosbarthu Adroddiad Gwerthuso ORS ar raglen HWW | KB | Awst 2021 | Cwblhawyd | |
| 07/21/3 | Rhannu gwaith mapio prosiectau a ariennir yn y cyfarfod nesaf | KB | Hydref 2021 | I'w ddosbarthu | |
| 07/21/4 | Nodi uwch gynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer Grŵp Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig | EL | Awst 2021 | Cwblhawyd | |
| 07/21/5 | Drafftio egwyddorion a phrosesu papur ar gyfer adolygiad o'r bartneriaeth ranbarthol | KB | Medi 2021 | Papur wedi'i ddrafftio i'w ystyried i ddechrau gan y Grŵp Gweithredol Integredig | |
| 07/21/6 | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion ariannu olynol | KB | O fis Awst 2021 | Ar yr agenda | |
| 07/21/7 | Pwysau ar y system - cynlluniau a | Y Grŵp Gweithredol | O fis Awst 2021 | Ar yr agenda | |

| ID | Gweithred | Arweinydd | Amserlen | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| | diweddariadau i'w darparu i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol | Integredig (IEG) | | | |